“Felly, gweddïwch chwi fel hyn: ‘Ein Tad yn y nefoedd, sancteiddier dy enw;’” **(Mathew 6.9)**

Dyma rai o eiriau mwyaf adnabyddus yr Arglwydd Iesu, geiriau y mae pob Cristion wedi eu hailadrodd droeon. Y perygl gyda hynny yw i’r ymadroddion fynd yn ddiystyr. Mae’n werth edrych arnynt eto, felly.

Ein Tad

Mae’r gair pader yn y Gymraeg yn dod o’r Lladin am dad, sef ‘pater’. Dyma ddarlun hyfryd o beth yw gweddi i’r Cristion, sef nesáu at ei Dad nefol. Mewn un ystyr mae Duw yn Dad i bawb fel Creawdwr, a bydd pawb yn rhoi cyfrif iddo. Mae dyletswydd ar bawb i’w anrhydeddu, ei wasanaethu ac ufuddhau iddo. Serch hynny, mae Duw yn Dad mewn ffordd arbennig o agos i’r sawl sydd wedi cael ei aileni ac wedi ei fabwysiadu i deulu Duw.

Agosrwydd

Am ein bod wedi’n creu ar lun a delw Duw, ac wedi’n creu o’r newydd yng Nghrist, gallwn ddeall fod dynesu at Dduw yn golygu dod at Un sydd yn gwrando â chalon Tad. Wrth ein dysgu i’w alw’n Dad, mae Iesu’n dweud wrthym bod gennym, fel plant, wahoddiad a hawl i alw ar Un fydd yn ein gwrando ac yn delio â ni’n drugarog iawn.

Caredigrwydd

Gallwn ddisgwyl caredigrwydd tadol gan Dduw, felly. Nid yw’n ryfeddod i dderbyn caredigrwydd gan dad daearol. Pa blentyn sy’n dod o’r ysgol gan dybio a fydd ei dad yn ei nabod neu’n fodlon siarad ag ef? Mae’r Tad nefol yn maddau, mae’n cydymdeimlo â’i blant, mae’n eu mwynhau, mae’n eu bendithio, er gwaethaf eu hannheilyngdod.

Ymddiriedaeth

Fel mae plentyn bach yn ymddiried yn ei dad i yrru’r car yn ddiogel, i gymryd penderfyniadau sy’n rhy fawr i blentyn bach, gallwn ni drystio’n Tad nefol gyda llyw ein bywyd hefyd.

Adnabod

Mae tadau yn nabod eu plant ac yn gwybod pryd mae cais yn ddifrifol iawn ac yn fater brys, a phryd nad yw. Rhaid i ni fod yn gwbl agored gyda’n Tad nefol, a bod yn dawel ein meddwl ei fod Ef yn abl i fesur maint yr angen sy’n pwyso

arnom a delio'n addas ag ef hefyd.

Safonau
Mae plentyn yn gwybod weithiau ei fod yn gofyn am rywbeth sydd yn groes i ewyllys ei dad. Nid yw wir yn disgwyl ei gael ond mae'n gofyn, 'rhag ofn'. Rhaid i ni gofio na allwn ddisgwyl ateb ffafriol i gais am unrhyw beth sy'n groes i ewyllys clir Duw yn y Beibl.

Teulu
Mae'r term 'ein Tad' yn ein hatgoffa mai rhan o deulu ydym. Rhaid cofio am ein brodyr a'n chwiorydd mewn gweddi ac yn ein bywydau bob dydd. Rhaid ceisio cefnogi gwaith ein 'perthnasau' yn y Ffydd. Os anghofiwn y teulu, mae'r geiriau 'ein Tad' yn gwbl ddiystyr a gwag.

Yn y nefoedd

Mae hyn yn ein hatgoffa o lawer mwy na lleoliad Duw. Mae'n dweud wrthym am **ei fawredd**. Mae'n uwch na ni, mae'n gymaint mwy na ni. Dywedodd William Carey y dylem fentro pethau mawr dros Dduw a gofyn pethau mawr gan Dduw hefyd.

Mae'n ein hatgoffa fod ein Tad **yn fod ysbrydol**, nid yn wan a ffaeledig fel ni. Mae hyn yn ein hatgoffa o'r angen am ffydd syml wrth weddïo. Rhaid i ni, fodau daearol, lefaru trwy ffydd er mwyn cael clust yn y nef.

Am ei fod yn y nef, mae Duw **yn dragwyddol**, y tu allan i fyd amser. Gall 'amserlen' Duw fod yn wahanol i'n syniad ni o amser. Mae hynny'n bwysig wrth i ni ddisgwyl ateb i'n gweddi. Dyma'r Duw sy'n cyflawni ei bwrpas, ac mae mil o flynyddoedd fel diwrnod yn ei olwg. Gall hyn fod yn rhyddhad mawr i ni sy'n cael ein gyrru a'n gwasgu gan y cloc a dyddiadau cau.

Os yw'n trigo yn y gogoniant, **mae'n sanctaidd a phur**. Mae'n bwysig cofio hyn wrth nesáu ato. Rhaid ein holi'n hunain am ein pechodau, rhaid pwyso ar haeddiant Crist, rhaid bod awydd i fod yn fwy sanctaidd ynom ninnau hefyd.

Mae'r nefoedd yn gartref i **orsedd gras Duw**. Dyma fan i ddisgwyl bendith, cymorth a llawenydd i bara, nid fel y byd hwn. Dyma'r Person y gallwn ddisgwyl cysondeb yn ei gymeriad, dyma'r Un na chawn ein siomi ynddo, fel 'mawrion' y byd hwn.

Gobeithio bydd myfyrio fel hyn ar y Tad nefol yn ein hysgogi i nesáu ato'n amlach mewn gweddi. Mae rhywbeth mawr o'i le pan na fydd plentyn yn siarad â'i dad daearol. Mae popeth o'i le os na fydd Cristion yn cymuno'n gyson â'i Dad nefol.